dros adferiad o afiechyd meddwl difrifol

hafal

for recovery from serious mental illness

Pen-y-bont ar Ogwr

Adroddiad Blynyddol 2010-2011

Mae Hafal Pen-y-bont ar Ogwr yn darparu'r gwasanaethau canlynol:

- **Prosiect Symud Ymlaen i Gyflogaeth** sydd yn darparu llwybrau positif i waith, hyfforddiant a gwirfoddoli.
- **Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd** sydd yn darparu cymorth mewn argyfwng, ymweliadau cartref, grwpiau cymorth i ofalwyr, cyfarfodydd cyswllt, dosbarthiadau cyfrifiadur i ofalwyr, eiriolaeth a llinell gymorth y tu allan i oriau arferol.
- **Gwasanaeth Seibiant i Ofalwyr (Seibiant)** sydd yn darparu pecynnau seibiant byr i ofalwyr ar y cyd gyda phecyn cymorth i'r sawl sydd yn derbyn y gofal
- **Gwasanaeth Ymglymu Defnyddwyr Gwasanaeth a Gofalwyr** sydd yn cefnogi pobl sydd yn defnyddio'r gwasanaethau a gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn chwarae rhan bwrpasol yn y broses o gynllunio, dylunio, darparu, mentora a gwerthuso gwasanaethau iechyd meddwl.
- **Gwasanaeth tai â chymorth Craidd a Chlwstwr** sydd yn cynnig gwasanaethau sydd wedi eu darparu ar sail anghenion ac sydd ar gael 24 awr y diwrnod.
- **Cymorth Hyblyg** i bedwar tenant sydd yn eu caniatáu i fyw mewn fflatiau hunangynhaliol.

Mae wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus iawn i'r prosiect tai â chymorth Craidd a Chlwstwr gydag un cleient yn symud ymlaen i fyw'n annibynnol. Nawr yn ei drydedd flwyddyn, mae'r prosiect tai wedi parhau i ddatblygu ac erbyn hyn yn llawn gydag wyth tenant.

Mae'r nifer o atgyfeiriadau a'r sawl sydd yn symud ymlaen gyda'r prosiect cyflogaeth yn parhau i gynyddu. Mae'r gwasanaeth wedi ymestyn ac yn diwallu anghenion unigol drwy ddarparu cymorth i bobl yn y gymuned; mae cleientiaid yn cwblhau proffil personol er mwyn cynyddu hyder a sicrhau llefydd cyn gynted â phosib.

Yn ystod mis Medi, roedd Hafal Pen-y-bont ar Ogwr wedi cynnal yr Ymgyrch 'Ffordd Tuag at Adferiad': roedd 88 o ddefnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol wedi mynychu'r digwyddiad hwn. Roedd defnyddwyr gwasanaeth a staff wedi trefnu nifer o weithgareddau, stondinau a dosbarthiadau gan gynnwys tylino'r pen a cherdded Nordig.

Ym mis Mehefin 2010, roedd SUCPO wedi trefnu'r daith flynyddol i ofalwyr i Ddinbych-y-pysgod gyda 46 o ofalwyr yn mynychu. Roedd SUCPO wedi mynd at Ganolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn trefnu Bore Coffi a Chacen misol er mwyn ymgysylltu â mwy o ofalwyr; lansiwyd hyn yn Nhachwedd 2010 ac mae'r niferoedd yn cynyddu. Ym mis Ionawr 2011, roedd SUCPO wedi enwebu defnyddiwr gwasanaeth ar gyfer diwrnod Adnabod Mae Iechyd Meddwl yn Cyfrif a chafodd ei wobrwyo am ei orchestion positif yn ei fywyd personol ac am gymryd rhan yn y broses o gynllunio gwasanaethau. Roedd SUCPO wedi derbyn cydnabyddiaeth gan ddefnyddwyr gwasanaeth am y gefnogaeth a roddwyd yng nghyfarfod y Rhwydwaith Defnyddwyr gwasanaeth. Roedd Pat Nolan, Gweithiwr Eiriolaeth Cymorth i Deuluoedd, wedi derbyn cydnabyddiaeth gan deuluoedd y defnyddwyr gwasanaeth, a hynny yn dilyn ei chefnogaeth.

Ym 2010-2011, mae'r gweithiwr SUCPO wedi ymgymryd ag oriau ychwanegol yr wythnos er mwyn cefnogi Grŵp Cam-drin Sylweddau a Arweinir gan Ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae hyn yn ddefnyddiol o ran deall mwy am Gam-drin Sylweddau a Diagnosis Deubłyg. Ym mis Tachwedd, roedd y gweithiwr SUPCO wedi ei wahodd i gymryd rhan ym Mhartneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Pen-y-bont ar Ogwr ac mae'n parhau i gwrdd â'r grŵp hwn er mwyn chwilio am hyfforddiant ar gyfer staff gofal cymdeithasol a sut y mae defnyddwyr gwasanaeth yn medru bod yn rhan o hyn.

Uned 49, Canolfan Menter Tondu, Heol Bryn, Tondu,
PEN-Y-BONT AR OGWR CF32 9BS
Ffôn: 01656 729191 e-bost : bridgend@hafal.org

Ym 2010-2011, roeddem wedi sefydlu cysylltiadau da gyda Swyddog Gwybodaeth a Chyfathrebu 'Mae Iechyd Meddwl yn Cyfrif' a byddwn yn mynychu ymweliadau ar y cyd yn y POW a lleoliadau cymunedol megis Cefn yr Afon, a hynny'n gyson. Roeddem hefyd wedi gweithio ar y cyd gyda'r Swyddog Datblygu Iechyd Meddwl yn BAVO er mwyn trefnu "Diwrnod Dweud Eich Dweud" a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2011. Roedd 20 o bobl wedi mynychu hwn. Roedd y digwyddiad wedi ei drefnu er mwyn caniatáu i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr i ddod ynghyd i ddeall mwy am sut i gymryd rhan a sut y mae pobl yn medru chwarae rhan yn y broses o gynllunio gwasanaethau ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Roedd y diwrnod hefyd wedi rhoi'r cyfle i bobl i ysgrifennu eu pryderon ynghylch gwasanaethau iechyd meddwl ar fyrddau gweledol er mwyn eu cynorthwyo i fwydo i mewn i adroddiad.

Yn ystod y flwyddyn, roeddem wedi cefnogi defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr i fynychu digwyddiadau megis ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru), Cynhadledd Dynion/Merched ac Iechyd Meddwl, adolygiad o'r Timau Cymunedol Iechyd Meddwl, Sesiwn Holi ac Ateb gydag Ymgeiswyr Seneddol a Chynhadledd Dull Rhaglen Ofal. Roeddem wedi parhau fel aelodau o'r Rhwydwaith Defnyddwyr gwasanaeth a'r cyfarfodydd Cyswllt Gofalwyr.

Mae gweithgareddau cyson sydd yn cael eu cynnal yn cynnwys grwpiau cerdded, ymweliadau â'r sinema, garddio, pêl-droed, cystadlaethau coginio a sesiynau sgiliau bywyd. Mae yna ystod lawn o weithgareddau gemau dan-do ar gael yn y prosiect ac mae teithiau undydd yn cael eu cynnal yn fisol. Yn ogystal, rydym hefyd yn cynnal nifer o grwpiau a chlybiau yn rheolaidd, gan gynnwys:

- Dosbarthiadau Learn Direct wythnosol
- Grŵp Cymorth i Ofalwyr misol
- Grŵp Cyfeillio Gofalwyr Misol
- Cyfarfodydd Cyswllt Gofalwyr bob yn ail fis
- Dosbarth cyfrifiadur i ofalwyr yn wythnosol
- Clwb cinio misol (defnyddwyr gwasanaeth).

Carwyn Jones yn y Diwrnod Adnabod Mae Iechyd Meddwl yn Cyfrif

Digwyddiad ymgyrch "Ffordd Tuag at Adferiad"